# Cipolwg: Sut i ddatblygu partneriaethau effeithiol rhwng y GIG a'r diwydiant

Welsh NHS Confederation
Conffederasiwn GIG Cymru

Mae'r crynodeb hwn yn rhoi trosolwg o ganllawiau i gefnogi gweithio mewn partneriaeth. Fe'i datblygwyd mewn cydweithrediad â'r GIG ac arweinwyr y diwydiant. Gellir gweld y pecyn canllawiau llawn ar wefan Conffederasiwn y GIG.

## Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn

Sefydliadau gofal iechyd yng Nghymru, arweinwyr y diwydiant a'r rhai sy'n arwain ar yr agenda partneriaeth a thrawsnewid o fewn eu sefydliad neu'r system.

**Defnyddiwch ef i:**

**bdod â rhanddeiliaid a phartneriaid at ei gilydd** i asesu blaenoriaethau

**dylunio a gweithredu prosiectau partneriaeth sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol** ac sy'n cael eu llywio gan y canllawiau adnoddau

**cryfhau sicrwydd a meithrin diwylliant** effeithiol o gweithio mewn partneriaeth

**graddio partneriaethau presennol** ar draws lleoliadau gofal

## Cam 1 – Adnabod a chwmpasu prosiectau

Gweithgareddau allweddol

- **Nodi angen heb ei ddiwallu:** Mae sefydliadau gofal iechyd a phartneriaid yn y diwydiant yn nodi anghenion heb eu diwallu i gefnogi canlyniadau clinigol gwell ac yn archwilio sut y gall cydweithio a phrosiectau cydweithio gynorthwyo. Mae'r broses hon yn cynnwys ymgysylltu â'r gymuned ac adborth gan gleifion i nodi cyfleoedd i wella.
- **Asesu cwmpas:** Ymgymryd asesiad o gwmpas y prosiect a'i nod yw helpu i nodi a yw prosiect yn brosiect cydweithredol neu'n brosiect gweithio ar y cyd.
- **Cytuno ar amcanion ac amserlen:** Amlinellu pwrpas, amcanion, effaith adnoddau ac amserlenni'r prosiect – i'w cymeradwyo gan bartïon i alluogi symud ymlaen i Gam 2, sef cam sefydlu'r prosiect.

## Cam 2 – Sefydlu prosiect a strwythurau llywodraethu

Gweithgareddau allweddol

- **Ffurfio tîm prosiect:** Tîm prosiect neu bwyllgor llywio yn cael ei ffurfio.
- **Meithrin ymddiriedaeth:** Gwaith a wneir i feithrin ymddiriedaeth ac ethos gweithio mewn partneriaeth effeithiol.
- **Datblygu dogfen cychwyn prosiect (PID):** Datblygu a chymeradwyo dogfen cychwyn prosiect (PID) sy'n manylu ar nodau ac amcanion y prosiect, y canlyniadau disgwyliedig, dyddiad cwblhau'r prosiect, strategaeth ymadael, strwythur sefydliadol y prosiect, adnoddau yn ogystal â diogelu data a chleifion.
- **Fframweithiau llywodraethu:** Sefydlu llywodraethu a threfniadau prosiectau.
- **Ymgysylltu â rhanddeiliaid:** Ymgymryd ag ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n berthnasol i drefniant y prosiect.
- **Ardystio PID:** Datblygwyd a chytunwyd ar PID gyda'r sefydliad gofal iechyd, y tîm prosiect, y pwyllgor llywodraethu a'r partner diwydiant yn y drefn honno. Yna rhaid iddo gael ei ardystio gan y partner diwydiant.
- **Cyhoeddi crynodeb gweithredol:** Rhaid cyhoeddi crynodeb gweithredol o resymeg y prosiect, y cyfnod, yr amcanion, rolau a chyfrifoldebau'r partïon, a'r trefniadau ariannol ar wefan y partneriaid diwydiant cyn gweithredu'r trefniadau. Dylai'r partner diwydiant ei ardystio.

## Cam 3 – Gweithredu prosiectau ac adrodd ar ganlyniadau

Gweithgareddau allweddol

- **Cyflawni'r prosiect:** Cyflawni a gwerthuso'r prosiect.
- **Monitro cynnydd:** Monitro prosiectau ac adrodd yn rheolaidd yn erbyn y canlyniadau a amlinellir yn y Ddogfen Cychwyn Prosiect ac yn y cytundeb ysgrifenedig. Os bydd newidiadau sylweddol i'r prosiect yn digwydd yn ystod y gweithrediad, dylid cwblhau fframwaith diwygio a'i gytuno gan y tîm prosiect a'r pwyllgor llywodraethu.
- **Cyhoeddi canlyniadau'r prosiect:** Dylai partïon gyhoeddi canlyniadau'r prosiect o fewn chwe mis i'w gwblhau.
- **Datgeliad y DU:** Rhaid datgelu trosglwyddiadau gwerth sy'n gysylltiedig â phrosiectau drwy gronfa ddata Datgeliad y DU hefyd

Cod Ymarfer ABPI 2024 yn bodoli i reoleiddio hyrwyddo meddyginiaethau presgripsiwn i weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y DU, rhyngweithiadau'r diwydiant â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a'r www.abpi.org.uk darparu gwybodaeth am feddyginiaethau presgripsiwn yn unig i'r cyhoedd.